

## **PRIFFYRDD, CYMRU**

**2010 Rhif 52**

### **GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD CAERDYDD I LANCONWY (A470) GWELLIANT GELLIGEMLYN) 2010**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 a  
DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

*Wedi'i wneud 07 Rhagfyr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir 'yr awdurdod caffael' yn y Gorchymyn hwn) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn -

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980<sup>(1)</sup> ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981<sup>(2)</sup> a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi, a phob pŵer galluogi arall<sup>(3)</sup>, wedi'i awdurdodi drwy hyn i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros dir a ddisgrifir ym mharagraff 2 er mwyn:

- (a) adeiladu priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i eiddo yng Nghymunedau Llanelltud a Ganllwyd yn Sir Gwynedd yn unol â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl;
- (b) gwella'r gefnffordd yn y Cymunedau a'r Sir a enwyd;
- (c) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwella'r priffyrdd hynny a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod; ac

---

<sup>(1)</sup> 1980 p.66

<sup>(2)</sup> 1981 p.67

<sup>(3)</sup> Yn rhinwedd O. S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llwodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi'u trosglwyddo bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(ch) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a gaiff bodolaeth neu ddefnydd unrhyw rai o'r priffyrdd y bwriedir eu hadeiladu neu eu gwella ar eu hamgylchoedd.

Mae copiâu o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r planiau perthynol wedi'u hadneuo ynghyd â'r map y cyfeirir ato yn Erthygl 5.

2. (1) Y tir a awdurdodwyd i'w brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i hyn ac a amlinellwyd a'i ddangos wedi'i liwio'n binc gydag ymylon coch ar y map y paratowyd dau gopi ohono ac a seliwyd â sêl gyffredin yr awdurdod caffael ac a farciwyd â 'Map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (A470) Gwelliant Gelligemlyn) 2010'.

(2) Disgrifir yr hawliau newydd sydd i'w prynu'n orfodol dros dir o dan y Gorchymyn hwn yn yr Atodlen a dangosir y tir wedi'i liwio'n las gydag ymylon coch ar y map a enwyd

3. Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w adeiladu arno.

4. At ddibenion y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythien o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith a godir ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y pellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr i'r gwaith hwnnw ag sy'n gymesur ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw â hanner dyfnder yr wythien o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 metr, p'un bynnag yw'r mwyaf.

5. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (A470);

ystyr 'y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl' ("*the Side Roads Order*") yw Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (A470) (Ffyrdd Ymyl Gwelliant Gelligemlyn) 2010;

ystyr ‘y map’ (*‘the map’*) yw’r map sydd wedi’i farcio â ‘Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (A470) Gwelliant Gelligemlyn) 2010’ ac a lofnodwyd gan swyddog i’r awdurdod caffael, a’i selio â sêl gyffredin yr awdurdod caffael a’i adneuo yn Uned Storïo ac Gwasaneath Recordiau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathys, Caerdydd.

6. Enw'r Gorchymyn hwn yw ‘Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (A470) Gwelliant Gelligemlyn) 2010’.

Dilysir SÊL GYFFREDIN GWEINIDOGION  
CYMRU a osodir yma gan

Llofnodwyd gan swyddog o Lywodraeth  
Cynulliad Cymru o dan awdurdod  
Gweinidogion Cymru.

J Collins  
Dirprwy Gyfarwyddwr

Dyddiedig 07 Rhagfyr 2010